# Archifdy Sir Gâr

# Polisi Mynediad

# 2026 – 2030

**Datganiad Cenhadaeth**
Ein nod yw adnabod, casglu a diogelu dogfennau hanesyddol sy'n berthnasol i Sir Gaerfyrddin a sicrhau eu bod ar gael i unrhyw un sy'n dymuno eu defnyddio.

Rydym hefyd wedi ymrwymo i godi ymwybyddiaeth am ein gwaith ac i arddangos yr amrywiaeth o ffyrdd y gall holl aelodau'r gymuned ddefnyddio'r gwasanaeth archifau a chofnodion.

**Amcanion y Polisi**
Pwrpas y Polisi Mynediad hwn yw sicrhau bod Archifdy Sir Gâr yn darparu'r mynediad ehangaf posib at y deunyddiau a gedwir a'r pynciau a gynrychiolir ganddynt. Gwneir hynny beth bynnag fo oedran, tras, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol neu anabledd y cwsmer ac os yw'n bosib, pwnc yr ymholiad.

**Mynediad i'r Adeilad**
Byddwn yn darparu mynediad uniongyrchol i'r cyhoedd i gasgliad archifau Sir Gaerfyrddin, yn ddi-dâl yn ystafell chwilio gyhoeddus adeilad yr archifau yn Gaerfyrddin. Bydd ein staff yn cynorthwyo ymwelwyr i ganfod yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt a byddant yn rhoi cymorth i ddarllen a dehongli'r dogfennau os oes angen.

Mae'n bosib i bobl anabl gael mynediad i'r holl ardaloedd cyhoeddus. Darperir dolenni sain i gynorthwyo'r rheini sydd â nam ar y clyw, a chyfleusterau chwyddo testun ar gyfer pobl sy'n cael trafferth darllen rhai o ddeunyddiau'r archifau.

Mae'r gwasanaeth ar agor i'r cyhoedd ar yr amseroedd canlynol:

**Dydd Llun:** Ar gau
**Dydd Mawrth:** Ar gau
**Dydd Mercher:** 09.15 – 16.45
**Dydd Iau:** 14.00 – 18.45
**Dydd Gwener:** 09.15 – 16.45
**Dydd Sadwrn:** 09.15 – 16.45
**Dydd Sul:** Ar gau

**Manylion mynediad**
Archifdy Sir Gâr,
Llyfrgell Caerfyrddin,
Heol San Pedr,
Caerfyrddin,
SA31 1LN
Cymru

**Ystafell chwilio:** 01267 228232
**E-bost:** ECSArchivist @sirgar.gov.uk

**Mynediad i gasgliad yr archifau**
Rydym yn darparu mynediad uniongyrchol i'r cyhoedd i gasgliad yr archifau yn unol â'n Polisi Rheoli Casgliadau, Rheolau'r Ystafell Chwilio a deddfwriaeth berthnasol.

Mae ein casgliadau ar gael i bobl sydd:
- yn meddu ar docyn darllen (Y Cerdyn Archifau: The Archives Card) https://www.archivescard.com/CY
- yn cytuno i gydymffurfio â Rheolau'r Stafell Chwilio

Mae ein harchifau ar gael oni bai bod:
- mynediad wedi'i wahardd gan eithriad statudol
- perchennog y casgliad wedi gosod cyfyngiad o ran mynediad
- mynediad yn debygol o achosi difrod i'r archifau neu fod
- copi benthyg neu gopi arall ar gael

**Mynediad o bell i gasgliad yr archifau**
Rydym yn ymateb i ymholiadau ynghylch casgliad yr archifau a dderbynnir drwy lythyr, e-bost a ffôn yn unol â Chynllun Strategol Cydraddoldeb ar gyfer 2020-24 (gweler Safon Mynediad isod).

**Mynediad i lungopïau deunyddiau o gasgliad yr archifau**
Rydym yn darparu llungopïau o ddogfennau yn unol â'n Polisi Llungopïo a deddfwriaeth berthnasol.

Rydym yn darparu llungopïau o archifau i bobl sydd wedi:
- derbyn dyfynbris am gost y llungopïau ac wedi talu ymlaen llaw am yr holl lungopïau sydd eu hangen arnynt.
- llenwi ac arwyddo ffurflen datganiad hawlfraint ar gyfer pob eitem y gofynnir amdani.

Rydym yn gwneud a darparu llungopïau o ddeunyddiau o gasgliad yr archifau oni bai bod:
- llungopïo wedi'i wahardd oherwydd eithriad statudol
- perchennog y casgliad wedi gosod cyfyngiad ar lungopïo
- llungopïo'n debygol o ddifrodi'r archifau neu fod
- llungopïo'n groes i ddeddfwriaeth hawlfraint

**Mynediad i grwpiau o bobl**
Rydym yn croesawu ymweliadau gan grwpiau addysg oedolion, grwpiau cymunedol neu grwpiau diddordeb hamdden ac yn croesawu ymholiadau gan ysgolion, colegau a phrifysgolion.

**Mynediad i archifau sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol**
Rydym yn ymdrin â cheisiadau gwrthrych am wybodaeth o dan y Ddeddf Diogelu Data ac yn ymdrin â cheisiadau am wybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn unol â

deddfwriaeth berthnasol a gweithdrefnau Cyngor Sir Gaerfyrddin. Rydym yn cyfeirio'r cais at y Swyddog Gwybodaeth Corfforaethol.

**Safonau mynediad**
Rydym yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o safon uchel bob amser yn unol â Chynllun Strategol Cydraddoldeb ar gyfer 2026-30.
https://www.sirgar.llyw.cymru/media/uiufat3x/cynllun-cydraddoldeb-strategol.pdf

Byddwn yn:

- anelu i ddarparu'r gwasanaeth gorau posib o fewn ein hadnoddau
- yn ceisio datrys problemau a bod ag agwedd "gallaf wneud"
- gwrtais, yn barod i helpu, yn agored ac yn onest gyda chi
- eich trin yn deg a chyfartal
- rhoi gwybodaeth glir i chi yn Gymraeg ac/neu Saesneg

Os ydych yn ymweld ag Archifau Sir Gaerfyrddinyn bersonol byddwn :

- yn eich croesawu wrth i chi gyrraedd
- yn daclus ac wedi ein gwisgo'n addas ar gyfer ein swydd
- yn ceisio gweld ymwelwyr sydd ag apwyntiadau o fewn 10 munud
- yn cadw ein cyfleusterau yn hygyrch, yn gyfforddus, yn lân ac yn daclus
- yn ymateb yn unol â safonau'r Siarter hon
- yn darparu ystafelloedd cyfweld preifat pan fônt ar gael
- yn sicrhau bod ein cyfleusterau wedi eu harwyddo'n glir gyda'r oriau agor wedi eu nodi

Os ydych yn cysylltu â ni drwy lythyr neu e-bost byddwn yn:

- cydnabod pob gohebiaeth o fewn 5 niwrnod gwaith
- anelu i ateb eich llythyr neu e-bost o fewn 10 niwrnod gwaith
- defnyddio iaith ddealladwy ac yn ymateb yn unol â'ch dewis iaith (Cymraeg neu Saesneg)
- defnyddio Braille, sain, print bras a gwahanol ieithoedd os bydd angen
- annog cyfathrebu drwy e-bost

Os ydych yn cysylltu â ni ar y ffôn byddwn yn:

- ceisio ateb yr alwad o fewn 5 caniad yn ystod yr oriau y bydd ein cyfleusterau ar agor
- ateb yr alwad yn ddwyieithog ac yn ymateb yn eich dewis iaith (Cymraeg neu Saesneg)
- dweud wrthych pwy sy'n delio â'ch ymholiad

Os ydych yn ymweld ag Archifdy Sir Gâr  rydym yn disgwyl i chi:

- Ddod â'ch tocyn darllen (Y Cerdyn Archifau: The Archives Card) gyda chi bob tro y byddwch yn ymweld. Rydych angen hwn er mwyn defnyddio dogfennau gwreiddiol.
- Ddilyn Rheolau'r Stafell Chwilio
- Trin pob dogfen a llyfr gyda gofal
- Dweud wrthym beth rydych chi eisiau. Ni allwn eich helpu oni bai eich bod yn rhoi digon o wybodaeth i ni fedru deall ac ymateb i'ch ymholiadau
- Ein trin yn gwrtais ac yn y modd y byddech chi'n dymuno i ni eich trin chi

- Ein cynorthwyo i wella ein gwasanaeth drwy ddweud wrthym beth rydym yn ei wneud yn dda a beth sydd angen ei wella

Os ydych yn anfodlon ag unrhyw agwedd o'r gwasanaeth rydym eisiau gwybod
- Siaradwch ag aelod o staff y Stafell Chwilio, a byddant yn ceisio datrys y mater
- Os ydych yn parhau i fod yn anfodlon, gofynnwch i gael siarad â'r Rheolwr Trawsnewid Archifau, Mr Hayden Burns; neu ysgrifennwch ato gan ddefnyddio'r cyfeiriad post / e-bost a nodir uchod
- Os ydych yn teimlo nad yw eich cwyn wedi'i datrys gofynnwch, os gwelwch yn dda, am ffurflen gwynion swyddogol Cyngor Sir Gaerfyrddin

Os ydych yn gwneud cwyn byddwn yn:
- cydnabod eich cwyn o fewn 5 diwrnod gwaith
- ymchwilio i'ch cwyn
- darparu ymateb ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod gwaith ac os nad yw hynny'n bosib, byddwn yn gadael i chi wybod pam, a phryd y gallwch ddisgwyl ymateb
  Gweler: https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/cwynion-canmoliaeth/

**Ehangu mynediad ac ymgysylltiad**
Mae Archifdy Sir Gâr  wedi ymrwymo i ehangu mwynhad a dealltwriaeth am archifau'r Sir Gaerfyrddin ym mhob rhan o'r gymuned.

Rydym yn cynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau ac arddangosfeydd yn y gymuned bob blwyddyn i hyrwyddo casgliadau'r archif ac i annog pobl newydd i fwynhau a chwilio am wybodaeth am eu treftadaeth.

Rydym yn cyfrannu at les ein cymuned drwy ddarparu cyfleoedd i bobl gymryd rhan yn sgil eu hymgysylltiad ag archifau Sir Gaerfyrddin.

Rydym yn croesawu ymholiadau gan y cyfryngau. Codir tâl am y gwasanaeth os oes angen a gofynnir bod y gwaith yn cael ei gydnabod.

Rydym yn croesawu barn ein holl ddefnyddwyr, defnyddwyr posib a chydranddeiliaid eraill ac rydym yn monitro ac arfarnu adborth er mwyn gwella ein gwasanaeth ac i ddiwallu eu hanghenion. Rydym yn ceisio eu barn mewn amryw o ffyrdd gan gynnwys ffurflenni adborth ac arolwg ymwelwyr ag archifau yn y DU y Grŵp Ansawdd Gwasanaethau Cyhoeddus (PSQG) ar gyfer archifau ac astudiaethau lleol a gynhelir bob deunaw mis.

**Adolygu**
Ysgrifennwyd y polisi hwn ym mis Rhagfyr 2026. Bydd yn cael ei adolygu yn 2030, neu'n gynharach os bydd angen gwneud hynny